2.03.2023

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Connagh a Wayne Howard yn parhau ar bererindod

Wrth i'r gyfres newydd, **Teulu, Dad a Fi,** barhau ar S4C ar 14 Mawrth, bydd y tad a'r mab o Gaerdydd, Wayne a Connagh Howard yn edrych tuag at Iwerddon am yr ail gam o'u taith.

Yn y bennod gyntaf, bu'r ddau yn hel achau'r Howards' - yn benodol, hanes Neville Howard, tad Wayne a thad-cu Connagh, a fu farw yn 2022. Yn un o genhedlaeth Windrush, daeth Neville o Kingston, Jamaica, i Southampton ar long yr SS Almanzora i chwilio am fywyd gwell. Daeth y canfyddiad fod Neville wedi treulio amser yn y carchar am deithio heb docyn yn dipyn o sioc.

Darganfyddiad arall a achosodd cryn syndod, oedd y ffaith fod Tommy McCarthy, sef hen Dad-cu Connagh o ochr ei fam Lynda, wedi ei eni yng Nghaerdydd. Yn ôl chwedl y teulu, yn Iwerddon y ganwyd ef.

Gyda hyn, mae'r hanesydd Elin Tomos yn benderfynol o olrhain etifeddiaeth Wyddelig y teulu - ond pa mor bell yn ôl sydd rhaid mynd nes cyrraedd Swydd Cork?

Meddai Connagh: "Dwi ddim wedi cysylltu fy hun gydag ochr Gwyddelig y teulu llawer, a nawr dwi'n cael mwy o fanylion, mae mwy o gysylltiad am fy hanes i ac o ble dwi'n dod. A dwi'n gallu dweud, ie, dyma ble oedd teulu fi'n dod o ochr Mam.

"Dwi'n drideg mlwydd oed a dyma'r tro cyntaf dwi'n dysgu am ochr yma'r teulu. Mae rhywbeth eithaf trist am hynny, a dwi'n meddwl pam does 'na ddim mwy o gysylltiad?".

Mae'r gwirionedd yn chwerw felys ac wrth i Elin eu tywys yn nes tuag at wreiddiau'r teulu daw hi ar draws hanes difrifol o newyn, dyledion a damweiniau llethol.

Mae wynebu'r gorffennol yn brofiad emosiynol i Connagh, sydd wedi ymddangos ar y gyfres Love Island. Ond, wrth i'r daith eu harwain dros fôr Iwerddon i chwilio am hynafiaid, mae croeso cynnes yn aros amdanynt. Mae cael hwyl a chodi canu gyda "brodyr Celtaidd" mewn tafarn Gwyddelig traddodiadol ym mhentref bychan Inchigeelagh yn chwa o awyr iach.

"Dwi'n rili mwynhau'r profiad," meddai Connagh. "Wnes i fwynhau neithiwr, cael bod mewn awyrgylch Gwyddelig go iawn. Dwi'n cael teimlad o gymuned, mae 'na wreiddiau yma.

"Pam dwi'n clywed pobl yn siarad, dwi'n gallu dychmygu Mamgu Cole. I ddod i'r lle maen nhw'n dod, wedi tyfu lan, wedi eu geni - mae'n wahanol, mae'n lot mwy dwfn. Dwi'n cau'r cylch, mynd *full circle*.

“Mae’n bwysig dysgu am ble chi wedi dod a pwy sydd wedi dod cyn ti, oherwydd ti’n cadw’r atgofion hynny a’u bywydau nhw i fynd. Edrych ar y lle yma, sut wyt ti’n gallu anghofio rhywle fel hyn?”.

Y cwestiwn mawr yw, a fydd Elin yn llwyddo dod o hyd i berthnasau byw Connagh?

Gwyliwch **Teulu, Dad a Fi,** nos Fawrth am 9.00. Ar ôl y bennod hon, bydd achau’r teulu yn arwain Wayne a Connagh ar draws Môr y Caribî i Jamaica.

**Teulu, Dad a Fi**
**Dydd Mawrth 14 Mawrth, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

2.03.2023

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Connagh and Wayne Howard continue on their pilgrimage

As the new series, **Teulu, Dad a Fi**, continues on S4C on March 14 the father and son from Cardiff, Wayne and Connagh Howard, will look towards Ireland for the second stage of their journey.

In the first episode, the two went in search of the Howards' geneaology - specifically, the story of Wayne's father and Connagh's grandfather, Neville Howard, who died in 2022. One of the Windrush generation, Neville came from Kingston, Jamaica, to Southampton on the SS Almanzora ship in search of a better life. The discovery that Neville had been imprisoned for being a stowaway came as a shock.

Another surprising revelation was the fact that Tommy McCarthy, Connagh's great Grandfather from his mother Lynda's side, was born in Cardiff – not Ireland as family folklore claimed.

With this, historian Elin Tomos is determined to reach the family's Irish lineage - but how far must she go to reach County Cork?

Connagh said: "I haven't had much association with the Irish side of the family, and now I'm getting more details, there's more of a connection about my history and where I come from. Now I can say, yes, this is where my Mum's part of the family came from.

"I'm thirty years old and I'm only just learning about this side of the family. There's something quite sad about that and I think why isn't there more of a connection?".

The truth is bitter sweet and as Elin guides them closer to the family's roots she comes across a grim history of famine, debt and fatal accidents.

Facing the past is an emotional experience for Connagh, who has appeared on Love Island. But, as the search for ancestors leads them over the Irish sea, a warm welcome awaits. Having fun with their "Celtic brothers" in a traditional Irish pub in the small village of Inchigeelagh is a breath of fresh air, with Wayne feeling compelled to belt out a moving rendition of Calon Lân.

"I'm really enjoying it," Connagh said. "I enjoyed last night, being immersed in a proper Irish atmosphere. There's a sense of community, of roots.

"When I hear people talking, I can imagine Nanna Cole. To come to the place they're from, where they grew up and were born – it's different, it's a lot deeper. I feel I've gone full circle.

"It's important to learn about where you came from and who came before you, because you keep those memories and their lives going. Look at this place, how can you forget somewhere like this?".

The big question is, will Elin manage to track down some of Connagh's living relatives?

Watch **Teulu, Dad a Fi,** on Tuesday night at 9.00. After this episode, the family's genealogy will lead Wayne and Connagh across the Caribbean Sea to Jamaica for the final stage of the journey.

**Teulu, Dad a Fi**
**Tuesday 14 March, 9.00**
**English subtitles available**
**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**